



Canolfan Grefft Rhuthun – Polisi Ymwelwyr 14fed Medi 2020

Rydyn ni'n hynod falch o gyhoeddi y bydd Canolfan Grefft Rhuthun yn ail-agor ar **Ddydd Mercher, 12fed o Awst**. Mae'n gyffrous iawn i ni fod yn agor ein drysau eto ac rydyn ni'n edrych ymlaen at eich croesawu'n ôl!

Y flaenoriaeth bwysicaf i ni yw gofalu eich bod chi a'n staff yn ddiogel.

Mae'r tîm wedi treulio amser maith yn sicrhau y bydd Canolfan Grefft Rhuthun yn 'ddiogel o ran Covid-19'. Rydyn ni wedi diweddarau ein polisiau a'n Hasesiadau Risg yn unol â chanllawiau'r DU a Llywodraeth Cymru a chyda help gan ein cydweithwyr yn Hamdden Sir Ddinbych Cyf ac yn rhannu arferion da o fewn y sector. Rydyn ni am eich sicrhau ein bod wedi gwneud popeth a allwn ni i ofalu ein bod yn gweithredu'n ddiogel.

Mae'r agor graddol yn golygu y byddwch yn sylwi ar nifer o newidiadau pan ddewch i ymweld â ni (mae'r canllawiau hyn yn cael eu diweddarau drwy'r amser gyda chyflwyniad canllawiau a rheoliadau newydd). Yn unol â Rheoliadau a Chanllawiau'r Llywodraeth ac er mwyn osgoi cynulladau mawr o bobl, ni fydd yna unrhyw weithdai na gweithgareddau ymarferol yng Nghanolfan Grefft Rhuthun nes y clywch chi'n wahanol. Rydyn ni'n datblygu platfformau creadigol newydd a rhaglenni ymgysylltu i bawb gyfranogi iddyn nhw a'u mwynhau. Fe wnawn eich diweddarau ar hyn wrth iddyn nhw ddod yn eu blaen.

Pryd fyddwch chi'n agor?

- Rydyn ni wedi newid ein **Horiau Agor**, fe fyddwn ni'n awr ar agor rhwng **11.00am–4.00pm** dydd Mercher i ddydd Sadwrn bob wythnos hyd nes y clywch chi'n wahanol.

Sut ydw i i ymweld?

- Defnyddiwch ein system newydd Bwciadau Ymwelwyr** i gael slot wedi'i amseru am 1 awr ar gyfer POB ymweliad â'r ganolfan a'r orielau.
Bwciwch drwy ein gwefan [YMA](#).
- Rydyn ni hefyd yn cynnig apwyntiadau ychwanegol y gellir eu bwcio ar gyfer y rheiny sy'n dymuno ymweld ar eu pen eu hunain, y rheiny sydd angen sicrwydd pellach neu sy'n agored i niwed, cyn ac ar ôl ein horiau agor newydd.
- Byddwn yn cyfyngu ar y nifer o ymwelwyr i uchafswm o 20 (neu dri grŵp teulu) ar y tro.
- Mae croeso i chi alw heibio i ymweld â ni yn ystod ein horiau agor, ond mae'n bosib y bydd yna giw os bydd yr oriel yn llawn – **byddem felly'n cynghori defnyddio'r system bwcio am ddim i osgoi ciwio.**

Sut wnawn ni sicrhau fod Canolfan Grefft Rhuthun yn ddiogel ar gyfer ymwelwyr?

- Mae'n ofynnol i chi wisgo gorchudd wyneb pan fyddwch yn ymweld â ni** (oni bai fod gennych esemptiad), er mwyn eich diogelwch chi a diogelwch ein staff. I gael gwybodaeth bellach ewch i wefan Llywodraeth Cymru [YMA](#).
- Gofynnwn i chi **olchi eich dwylo** â'r gel glanweithio wrth ddod i mewn.

- **Pellter Cymdeithasol** – Helpwch ni i gadw pawb yn ddiogel drwy gadw pellter o 2-fetr oddi wrth gwsmeriaid a staff pan fyddwch yng Nghanolfan Grefft Rhuthun. Rydyn ni wedi ychwanegu arwyddion newydd i helpu i'ch tywys a gofynnwn i chi siopa ar eich pen eich hun yn ardal ein Horiel Adwerthu lle bo hynny'n bosib. Bydd rhai ardaloedd fel ein gofodau gweithgareddau ymarferol ar gau am y tro.
- Mae yna amserlen o **Lanhau Gwell** wedi'i threfnu – helpwch ni, os gwelwch yn dda drwy **beidio â gafael mewn eitemau** yn ardal ein Horiel Adwerthu oni bai fod yn rhaid i chi. Fe ddarparwn ni fenig hepgor ar gyfer y rheiny sy'n dymuno archwilio eitemau cyn eu prynu. Bydd unrhyw eitemau y bydd pobl wedi cydio ynddyn nhw'n cael eu cadw'n ôl rhag eu gwerthu am 72 awr. Bydd hynny'n gymwys i eitemau fydd wedi'u dychwelyd hefyd.
- Rydyn ni wedi gosod arbedwyr gwarchod plastig yn y dderbynfa/y ddesg werthu.
- Mae'n ofynnol i ni gofnodi manylion cysylltu ar gyfer pob ymwelydd yn rhan o'r **'Profi, Olrhain, Diogelu'**. Fe gymerir manylion pan fyddwch yn ymweld/yn bwcio ar-lein. Byddwn yn cadw – ac yn cael gwared â'r manylion hyn yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd **Gwybodaeth**.

Fydd eich toiledau chi'n agored?

- Mae'n bosib y bydd ardaloedd arbennig wedi'u cau neu wedi'u cyfyngu pan fyddwn yn ail-agor. Golyga hyn mai nifer cyfyngedig o doiledau ar y safle fydd ar agor ar gyfer y cyhoedd am y tro. Byddwn yn adolygu hyn wrth i ganllawiau gael eu diweddarau.

Gaf i ddefnyddio arian parod?

- Gallwn dderbyn taliadau arian parod, fodd bynnag fe anogir ymwelwyr yn gryf i dalu â dulliau digysylltiad pryd bynnag y bydd hynny'n bosib.

Beth petawn i'n teimlo'n sâl?

- Os byddwch chi neu rywun rydych chi wedi bod mewn cysylltiad â nhw'n dangos symptomau COVID-19, gohiriwch eich ymweliad â'r ganolfan, os gwelwch yn dda.

Fydd y Bwyty ar agor?

- **Ni fydd Café R ar agor am y tro**, a bydd yn ail-agor yn nes ymlaen.
- Mae yna nifer o opsiynau bwyd a diod ar gael yn yr ardal leol – felly beth am ddilyn y **Llwybr Celf YMA** i mewn i'r dref a fforio'r dref farchnad hanesyddol yn rhan o'ch ymweliad.

Beth os bydd yna Waharddiad newydd ar symud?

- Os bydd yn ofynnol i ni gau eto oherwydd Gwaharddiad newydd, mae'n bosib y bydd hynny ar fyr rybudd, felly bydd yn rhaid canslo pob apwyntiad. Os ydych chi'n bwriadu teithio o ardal lle bydd Gwaharddiad newydd ar Symud yn cael ei orfodi, peidiwch ag ymweld, os gwelwch yn dda. Gallwch aildrefnu eich ymweliad ar gyfer dyddiad diweddarach.

Canolfan Grefft Rhuthun, Y Ganolfan i'r Celfyddydau Cymhwysol, Heol y Parc, Rhuthun, Sir Ddinbych, Cymru DU, LL15 1BB.
Ffôn: +44 (0)1824 704774. Mynediad AM DDIM. Maes Parcio AM DDIM. www.canolfangrefftrhuthun.org.uk

